WG35. S. 161

# GALAR-GAN

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. HENRY REES,

## LIVERPOOL,

A fu farw y 18fed o Chwefror, 1869, yn 72 oed, wedi bod yn gweinidogaethu yn Nghorff y Methodistiaid Calfinaidd am haner can mlynedd.

GAN JANE HUGHES,

PONT ROBERT.

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN W. THOMAS, (GWILYM MAI.)

1869.

X205313794

# GALAR-GAN.

1 Yr ugeinfed dydd o Chwefror,
Ar nos Sadwrn, dyma'r awr,
Daeth y newydd trwm i'm clustiau
I d'wysog syrthio, a gwr mawr;
Gwr cadeiriol y gymanfa,
T'wysog penaf Israel Duw,
Un fu'n ffyddlawn dros ei Arglwydd,
Peidiwch d'wedyd, ai gwir yw?

2 Dwedai rhywbeth wrthwy'r Sabboth
Pan 'rown mewn myfyrdod dwys,
Tro dy bin, mae'n rhaid it' ganu
'Rol dy frawd aeth tan y gwys;
Fy nheimladau a'm gorchfygai,
Troi i wylo wedi'n draw,
Methu credu mai gwirionedd
Oedd y newydd hwn mewn braw.

3 Henry enwog, angel Cymru,
Est ti adref, ai gwir hyn?
Mae y newydd wedi 'nharo,
Nes yw 'nghalon fach yn syn;
A meddyliais pa fath gyfarch
A fu rhyngot ti â'r llu,
Ar ol landio trwy'r Iorddonen
Mewn i byrth Caersalem fry.

4 Wyt ti'n 'nabod pawb o'r teulu
Sy yna'n ddysglaer fel y wawr ?
Wyt ti'n gwybod 'bod ni'n wylo
Ar dy ol trwy Gymru'n awr ?
Pa fath gyfarch a fu rhyngot
A fy anwyl dirion dad ?
Cyd-ryfelwyr fuoch yma
Yn y brwydrau'n nydd y gâd.

5 A pha olwg gest ti hefyd
Ar d' urddasol hynaf Frawd,
Tan goronau fyrdd myrddiynau,
Nid yn wr gofidus tlawd,
Fel bu yma ar y ddaear
Pan yn talu'n dyled ni,
Yn ei berffaith bur gyfiawnder
Heddyw dysglair iawn ych chwi.

6 HENRY fwyn a HENRY hawddgar,
Hoffus iawn a llawn o hedd,
Ai o fewn yr wythnos yma
Rhoir di yn dy ddystaw fedd ?
Er im' glywed am dy farw,
Methu credu eto'n iawn,
Hyd nes gwelir y gymanfa
Heb dy swyn angylaidd ddawn.

7 Beth a wnawn ni, anwyl Arglwydd,
Beth a ddaw o Seion Duw,
Os ai di â'r holl enwogion
Adref yna 'gyd i fyw ?
Mae fy nghalon yn ofidus,
Ac mae miloedd heddyw'n brudd,

A bydd Seion yn ei *mwrning*
O Gaergybi i ben Caerdydd.

8 Pan ddoi'r newydd i fy nghlustiau,
Aeth fy nghalon fel y plwm,
D'wedyd wnes, Nis gallaf oddef
Y fath newydd trist a thrwm;
Ar y *platform* yn Nghaerfyrddin
Daeth y newydd i mi'n syn,
'Roeddwn bron rhy wan i oddef
Cenadwri drist fel hyn.

9 Fe ddaeth engyl glân gogoniant
Lawr i'r ddaear gyda brys,
Yn osgorddlu tanllyd dysglaer
Trwy awdurdod mawr y llys;
Angau'n datod, hwythau'n gwylio
Un o berlau'r nefoedd wen,
Ac yn arwain HENRY adref
At y llu tu fewn i'r llen.

10 O, fy mrawd, os ym ni'n wylo,
'Rwyt ti'n llon a hardd dy wedd,
Wedi croesi'r afon donog,
Dychryn angau du a'r bedd;
Y mae swn cerddediad lluoedd
O fy mrodyr aeth yn mla'n,
Yn creu hiraeth arnaf finau
Am fyn'd adre' i Salem lân.

11 Clywaf Seion heddyw'n wylo,
Dyma faich, pa fodd i'w ddwyn,
Colli angel yr areithfa,
Oedd â'i lais fel nefol swyn:

Pan y byddai yma'n traethu
   Cariad Duw a gwerth yr Iawn,
'Fedra'i heddyw ddim mynegu
   Faint a ges o'i lestr llawn.

12 Wylo raid, a wylwch greigiau,
   Mae hi'n myn'd ar Gymru'n nos,
Colli'r llestri mawr fu'n cario
   Perlau pur ei angeu lo's;
Cofio'i eni'n wr cymanfa,
   Cofio'i destun cynta'n syn,
Pan ddaeth atom i Bont Robert,
   Dyma'i destyn y pryd hyn:—

13 Gostwng di fy nghalon, Arglwydd,
   At dy dystiolaethau pur,
'N lle at ynfyd wag gybydd-dra,
   Melldith benaf môr a thir.
Henry'n traethu, a'r nef yn gwlawio
   Manna fel coriander gwyn,
A'r telynau yn Mhont Robert
   Oedd yn canu'n bêr pryd hyn.

14 Dweyd am werth y tystiolaethau,
   Ninau'n teimlo'r cadarn sail;
Ef yn traethu, a'r telynau
   Yno'n canu bob yn ail;
Ond mae'r newydd syn o'i golli
   Wedi rhoi im' brudd-der braw
Ffordd i ganu, ffordd i dewi,
   Mae hi'n gyfyng ar bob llaw.

15 Pan mae'r holl ryfelwyr penaf
   Yma'n gado'r maes a'r llu,

Bron a gofyn 'rwyf, O Arglwydd,
  Beth a ddaw o Seion gu?
Cofia, Arglwydd, dy ddyweddi,
  Cyn ei digaloni'n lân,
Dyro d' Yspryd yma'n nerthol
  Eto i enyn nefol gân.

16 Wythnos cyn i'r newydd athrist
  Swnio ar fy nghlust mor brudd,
Mi freuddwydiais 'mod i'n colli
  'R oll a feddwn—nos nid dydd;
Yn y fangre lle yr oeddwn,
  Yn fy mreuddwyd y pryd hyn,
Ces y newydd i ti hedeg,
  O, fy mrawd, i Seion fryn.

17 Ac mi welais niwl a th'wyllwch
  Oll trwy Gymru yn ymdoi,
Y goleuni fel yn cilio,
  A'r tywyllwch yn crynhoi,
Nes oedd deffro imi'n felus,
  I gael gweled goleu'r dydd,
Ond er hyny mae fy nghalon
  Am y breuddwyd yma'n brudd.

18 Colli'm cyfaill, dyma'r golled
  Ddaeth o'r breuddwyd rhyfedd hwn,
Colli HENRY, pwy a draetha
  'R golled yma byth nis gwn;
Cerbyd Israel a'i farchogion
  Wedi gado'r maes a'r llu,
Ni wna neb 'mo'r golled fyny,
  Arglwydd anwyl, ond tydi.

19 Mi ymdrechais beidio canu,
Teimlo f' annheilyngdod mawr,
Tan ddaeth angel HENRY ataf
Foreu'r Llun ar doriad gwawr;
Cana di, mae i ti roesaw,
Mae holl ddoniau'r Nef o'th du,
Wylo a galar sy'n gyfreithlawn
Ar ol colli t'wysog llu.

20 Beth sy'n bod, O Nef y nefoedd,
Wyt ti am 'speilio'r ddaear dlawd
O bob un sy'n gallu traethu
Am ogoniant Crist ein brawd?
Colli'r hen ryfelwyr enwog
Oll o Gymru, dyma'r awr
'R aiff hi'n dywyll fel y fagddu,
Os na thora boreu wawr.

21 Colli athrawiaethwr grymus,
Un o gedyrn wyr y gâd,
Colli brawd oedd colli HENRY,
Colli cyfaill, colli tad;
Colli lleuad oleu Cymru,
Colli llusern yn y nos,
Colli un oedd â'i holl enaid
Yn dyrchafu Crist a'i gro's.

22 Fel cerbydau Aminadab
Bu ef yma yn ei ddydd,
Yn cario sypiau grawn Calfaria
I gynyddu'n gras a'n ffydd;
Ac yn d'wedyd am gau grefydd,
Mai'r ynfydrwydd mwya' erioed,

Oedd proffesu enw Iesu,
A rhoi'i ddeddfau dan ein troed.

23 Mae'r Parchedig HENRY heddyw
Wedi hedeg uwch y llawr,
Mor ddisymwth, fel na chafwyd
Nemawr rhybydd, O beth mawr ;
Neu fe fuasai rhai o'i frodyr
Yma'n gofyn ganddo'n gu
Am ddau parth o'i yspryd enwog
Eto i aros gyda ni.

24 Neu fe fuasai Seion anwyl
Yma'n deffro ar ei thaith,
Ac yn gofyn pymtheg mlynedd
Iddo'n rhagor gyda'r gwaith ;
Colli'n tadau, dyma golled,
Colli'u hyspryd, colled fwy,
Eisiau gweled rhai yn llenwi
Eu mantellau mawrion hwy.

25 Mantell ryfedd Christmas Evans
Fel blew geifr Ioan gynt,
Mantell danllyd fawr Elias
Oedd â'i lais fel nerthol wynt,
Mantell eang Hughes Pont Robert,
Oedd fel rhyw behemoth mawr
Yma'n plymio moroedd arfaeth
Gyda'i frodyr ar y llawr ;

26 Ac yn treiddio rhyfeddodau
Cariad tri phersonau'n un,
Ac yn traethu am y cynghor
Boreu mawr er cadw dyn ;

Mantell borffor Phillips Bangor,
  Sidan glas ein Henry mwyn,
O, fy mrodyr, dewch i wylo,
  Gwnewch â'm clwyfau gyd-ymddwyn.

27 Mantell Davis Aberteifi,
  Un ddiwniad hardd oedd hi,
Fel gwisg uchaf ein Gwaredwr
  Pan oedd ar ein daear ni,
Wedi'i pherarogli hefyd
  A grasusau Crist a'i groes,
Ffydd a gobaith, cariad brawdol,
  Dyma dlysau mawr ei oes.

28 Mantell dywysogaidd obry,
  Oedd fel brenin ar y llu,
Yn adnabod delw Iesu
  Pa le bynag byddai hi;
'Rwyf yn cofio'i bregeth ryfedd
  Yn darlunio Adda'r Ail,
Archoffeiriad, sylfaen Seion,
  Ninau'n chwareu ar ei sail.

29 Llosger y parwydydd bellach,
  Ynfyd ffol sectyddol sêl,
Iesu Grist yw'r ffordd i'r bywyd,
  Drws y defaid yn ddigêl;
Moroedd yw ei gariad perffaith,
  Nofia'r llestri mwya' i'r lan,
Heb ddim achos iddynt daro
  'N erbyn llestri bach a gwan.

30 Ffydd a gobaith, cariad brawdol,
  Hwnw'n gaptain ar y llu,

Yn cyd-nofio trwy'r tymhestloedd
  Mewn i byrth Caersalem gu;
Deued pawb sy'n caru'r Iesu
  Mewn gwir undeb megys cynt,
I gyd-lefain am awelon
  Mawr oddiwrth y pedwar gwynt.

31 Cloddiwch i drysorau'r Beibl,
  Mynwch afael ar y graig,
Felly cewch gyd-ganu'r anthem
  Fawr am goncwest had y wraig;
Gyrwch ocheneidiau fyny,
  A'r bobl dd'wedont oll Amen,
Felly cawn ni wel'd gogoniant
  Mawr y Gwr tu fewn i'r llen.

32 Yn fy nhad 'roedd yspryd t'wysog,
  Cadwai bobpeth yn ei le,
Ac nis gwnaed 'mo'r golled fyny
  Ini eto is y ne';
Heddyw Henry fwyn nefolaidd
  Sydd yn seraph tanllyd fry,
Pwy a leinw'i le—'does yma
  'R un o'i debyg yn y llu.

33 Neb ond Iesu ddichon godi
  Gweision enwog megys cynt,
Yma i alw yr awelon
  Mawr oddiwrth y pedwar gwynt;
Ac mae'r sypiau grawnwin aeddfed
  Ges i trwyddynt lawer gwaith,
Fel yn newydd i fy enaid
  'Nol eu myn'd i ben eu taith.

34 Ryw dro arall yn Mhont Robert,
Nid wy'n cofio'r testun hwn,
Ond y wledd wrth fwrdd cymundeb
'R aeth fy meddwl arni'n grwn,
A'r brawd anwyl yn darlunio
Crist yn nesu at ei Dad,
Pan oedd Duw yn galw'r cleddyf
Ddeffro i'w daro yn ddiwad.

35 D'wedai'n rhyfedd am y cariad,
Am yr ing, y chwys, a'r gwaed,
Pan oedd Ceidwad cu pechadur
'N sathru'r gwinwryf tan ei draed;
Ffydd yn edrych trwy'r darluniau
Nes yr aeth hi'n wledd ar g'oedd,
Peraidd haleluia enwog,
Ac yn orfoleddus floedd.

36 Diolch hefyd, meddai HENRY,
Mai nid angel perffaith wyf,
Ond pechadur tlawd colledig,
Wedi'i gael mewn marwol glwyf;
Cawn, gyfeillion, meddai, yno
Lawer mwy gogoniant fry,
Mae'r Ail Berson heddyw'n briod
Yn y nef â'n natur ni.

37 Mae'r parchedig anwyl HENRY
Erbyn heddyw'n un o'r llu
Sydd yn seinio anthem bywyd
Yn y freiniol ddinas fry;
Yno 'r oedd hi'n *goronasion*,
Ac yn seinio pur Amen,

Pan oedd Breuin y brenhinoedd
Yn rhoi'r goron ar ei ben.

38 Ac yn d'wedyd wrtho hefyd
Yno ar g'oedd y nefoedd fry,
Da was da a ffyddlawn fuost,
Dos 'mewn i'm llawenydd i ;
Ar ol lludded maith a rhyfel
O foreuddydd hyd brydnawn,
Dyma d' orsedd, eistedd, gorphwys,
Gwledda ar drysorau'r Iawn.

39 Trwy ei genadwri hyfryd,
Swyn ei ddawn i berchen ffydd,
Ai'r cadwynau yma'n ddrylliau,
Ninau'n chwareu â'n traed yn rhydd ;
Yn y cymanfaoedd mawrion,
*Green* y Bala lawer tro,
Pan y doi'r awelon grymus
O Galfaria, enwog fro.

40 Mewn cymundeb draw yn Ninbych,
Amser y diwygiad mawr,
Pan yn traethu cariad Iesu,
Torodd dwyfol nefol wawr,
Nes yr oeddym fel yn gweled
Meichiau Seion uwch y llen,
Gan lesmeirio o lawenydd,
Haleluia mwy, Amen.

41 Fe ga'dd HENRY bob anrhydedd
Gan ei frodyr yma 'nghyd,
A'r chwiorydd arno'n gweini
Yn y parlwr goreu clyd,

Stryt y Brenin wnaeth ei dderbyn
Yn Nghaerfyrddin 'r olaf waith,
Gyda Meistres Jones a'i phriod
Ca'dd orphwyso ar ei daith.

42 A bendithia di, O Arglwydd,
Bawb fu'n gweini arno ef,
A gwir grefydd, i gael gwledda
Fry yn mhalas Brenin nef;
Ni fydd yno ffarwel *sermon*,
Galar-gân nac wylo mwy,
Pawb yn iach yn seinio'r delyn
Am rinweddau marwol glwy'.

43 Dyma farwnad i'r dirwestwr
Gan ddirwest-wraig Cymru fwyn,
Wedi gwylio dridiau a theirnos
I gael wylo a dweyd ei chŵyn;
Canu marwnad, beth yw hyny,
Dim ond llaesu'm poen a'm cri,
Cymysg yw o ganu ac wylo
Yma ar ein daear ni.

44 Deffro, Seion, a gweddia
Am ddau parth o'i yspryd cu,
Eto i aros yn y gwersyll,
Yn lle gado pawb o'r llu;
O flaen drygfyd y cymerir
Y cyfiawnion adre'n awr,
Ac mae hyn yn arwydd storom,
Deffro, Gymru, galw am wawr.

45 Chwithau'r weddw sy'n alarus
Tan yr ergyd hynod hwn,

Pwy all draethu maint eich galar,
  Galar calon, galar trwm ;
A'i ferch anwyl sy'n amddifad
  Heb ei thad fel finau mwy,
Ymgysurwn yn yr Arglwydd,
  Ni gawn eto gwrdd a hwy.

46 A chyfarfod mewn cymanfa
  Bur ysprydol uwch y llawr,
Lle na chaiff y gelyn creulawn
  Ddod a'i gledd i dori lawr ;
Yno bydd hi'n gwlwm undeb,
  Nofio moroedd cariad pur,
Yn y berffaith lawn orphwysfa,
  Heb ddim llygredd, poen, na chur.

47 A'i gyfeillion yn Llynlleifiad,
  Mawr yw'ch galar yna i gyd,
Llosgi i'r soced mae'ch canwyllau,
  A'r meginau mawr ynghyd ;
Colli ein cymylau mawrion,
  Sychder maith yn crino'r pren,
Ac mae blodau gras yn gwywo,
  Eisiau'r gwlith o'r nefoedd wen.

48 Megys d'wedodd Henry anwyl,
  Ar y *Green*, a dyma'r awr,
Ar ol claddu John Elias,
  Elias danllyd, seren wawr,—
Clywch, gwrandewch drigolion Cymru,
  Beth a dd'wedaf gan mor drist,
Llosgwyd 'Lias lawr i'r soced,
  Ac heb dderbyn yma i Grist.

49 Ac 'rwy'n ofni mynwch eto
'N llosgi ninau yr un wedd,
Myn'd tan chwareu a'ch pechodau,
Heb un meichiau'n is na'r bedd ;
Dyma'r *stage* o dan ei *mwrning*,
'Lias enwog fry mewn hedd,
Calon pawb a garai Seion
Bron a suddo'n drist eu gwedd.

50 Mae fy nerth i wedi pallu,
'Ngoleu'r nefoedd gwnes i'r gân,
Ac am hyny rhown y moliant
Mwy i enw'n Harglwydd glân ;
Ffarwel iti 'mrawd anwylaf,
Tan ddo'i inau at y llu,
Lle mae myrddiwn o fyrddiynau
'N seinio'r gân am Galfari.

WILLIAM THOMAS, ARGRAFFYDD, CAERFYRDDIN.